**Rhif: LIC54178**

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Ymgynghoriad ar y Fframwaith Cenedlaethol drafft ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub

Mawrth 2026

## Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Fframwaith Cenedlaethol arfaethedig ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru a fydd yn weithredol o fis Mawrth 2026 ymlaen.

## Y Camau Gweithredu sy'n Ofynnol

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Mae fersiynau print bras, Braille ac ieithoedd amgen o'r ddogfen hon ar gael ar gais.

## Manylion cyswllt

Am ragor o wybodaeth:

Cangen y Gwasanaethau Tân
Llywodraeth Cymru
Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

E-bost: fire@gov.wales

## Copïau ychwanegol

Mae'r crynodeb hwn o'r ymateb a chopïau o'r holl ddogfennaeth ymgynghori yn cael eu cyhoeddi ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen i'r ddogfennaeth ymgynghori: Ymgynghoriad ar y Fframwaith Cenedlaethol drafft ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub [HTML] | LLYW.CYMRU

## Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU (GDPR y DU)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru ac ar gyfer unrhyw ddata personol y byddwch yn eu darparu fel rhan o'ch ymateb i'r ymgynghoriad.

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hwn, a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch sut maent yn arfer eu swyddogaethau cyhoeddus. Y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu gwybodaeth yn yr ymarfer casglu data hwn yw ein tasg gyhoeddus, hynny yw, arfer ein hawdurdod swyddogol i ymgymryd â rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru. (Erth. 6(1)(e))

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n delio â'r materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw, neu wrth gynllunio ymgynghoriadau yn y dyfodol. Yn achos ymgynghoriadau ar y cyd, gall hyn hefyd gynnwys awdurdodau cyhoeddus eraill. Pan fydd Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o ymatebion i'r ymgynghoriad, yna gellir comisiynu'r gwaith hwn i gael ei gynnal gan drydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori). Dim ond o dan gontract y bydd unrhyw waith o'r fath yn cael ei wneud. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion llym ar gyfer prosesu a diogelu data personol.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Efallai y byddwn hefyd yn cyhoeddi ymatebion yn llawn. Fel arfer, gyda’r ymateb fe gyhoeddir enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb. Os nad ydych am i'ch enw na'ch cyfeiriad gael ei gyhoeddi, dywedwch hyn wrthym yn ysgrifenedig pan fyddwch chi'n anfon eich ymateb. Yna byddwn yn eu golygu cyn eu cyhoeddi.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth ac y gallai Llywodraeth Cymru fod o dan rwymedigaeth gyfreithiol i ddatgelu rhywfaint o wybodaeth.

Os bydd eich manylion yn cael eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, yna bydd yr adroddiadau cyhoeddedig hyn yn cael eu cadw am gyfnod amhenodol. Bydd unrhyw un o'ch data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael ei gadw am ddim mwy na thair blynedd.

## Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl i’r canlynol:

- cael gwybod am y data personol a gedwir amdanoch a’i weld
- gofyn inni gywiro gwallau yn y data hwnnw
- gwrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu’r data (o dan amgylchiadau penodol)
- i'ch data gael ei 'ddileu' (o dan amgylchiadau penodol)
- cludadwyedd data (o dan amgylchiadau penodol)
- cyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data

Am ragor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw a'i defnyddio, neu os hoffech arfer eich hawliau o dan GDPR y DU, gwelwch y manylion cyswllt isod

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ
e-bost: swyddogdiogeludata@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire SK9 5AF
Ffôn: 0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk/

Mae’r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

OGL © Hawlfraint y Goron xxxx ISBN Digidol

## CYNNWYS


Cyflwyniad .... 6
Proses Ymgynghori .... 6
Crynodeb o'r Ymatebion i'r Ymgynghoriad .... 7
Y camau nesaf .... 17
Atodiad 1 – Rhestr o Ymatebwyr .... 19

## Cyflwyniad

1. Cyhoeddwyd ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Fframwaith Cenedlaethol newydd ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub ar 22 Hydref 2025.

2. Mae adran 21 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (Deddf 2004) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi Fframwaith Cenedlaethol i "nodi blaenoriaethau ac amcanion ar gyfer awdurdodau tân ac achub mewn cysylltiad â chyflawni eu swyddogaethau" ac mae hefyd yn caniatáu i'r Fframwaith gynnwys canllawiau ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub (ATAau) mewn cysylltiad â chyflawni eu swyddogaethau. Cyhoeddwyd y Fframwaith diwethaf o'r fath yn 2016, ac er ei fod wedi profi ei hun yn dda dros amser, bu sawl datblygiad arwyddocaol iawn sydd wedi effeithio ar wasanaethau tân ac achub ers hynny (megis tân Tŵr Grenfell a'r sefyllfa diogelwch byd-eang ansefydlog), sy'n ei gwneud hi'n angenrheidiol cyhoeddi un newydd.

3. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys drafft cyflawn o Fframwaith diwygiedig a gwahoddodd farn ar ei gynnwys. Yn amlinellol, nododd y drafft y canlynol:

- Bod sawl newid sylweddol iawn wedi bod i'r cyd-destun strategol y mae'r Gwasanaethau Tân ac Achub (GTAau) yn gweithredu ynddo, ac yn y lefelau a mathau o risg y gallai fod angen iddynt ddelio â nhw. Mae'r sefyllfa honno yn debygol o barhau, ac mae risgiau newydd pellach yn debygol o ddod i'r amlwg.

- Yn unol â hynny, dylai GTAau ail-werthuso'r risgiau cyfredol a'r risgiau tebygol yn y dyfodol yn drylwyr yn eu hardaloedd, ac addasu eu lefelau capasiti a gallu, a'u dosbarthiad ohonynt ar draws eu hardaloedd, yng ngoleuni hynny. Dylent hefyd fod yn barod i weithredu'n gyflym ac yn hyblyg wrth ymateb i risgiau sy'n dod i'r amlwg.

- Dylai diwylliant, arweinyddiaeth a rheolaeth y GTA barhau i wella, fel diben ynddo'i hun ac i arfogi'r Gwasanaeth yn well i ddelio â'r cynnwys risg strategol newidiol.

- Dylai llywodraethu corfforaethol Awdurdodau Tân ac Achub (ATAau) hefyd addasu i gwrdd â'r cyd-destun newidiol hwn, ac i sicrhau amcanion ehangach fel sero net.

## Proses Ymgynghori

4. Mae adran 21(5) o Ddeddf 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r ATAau neu'r unigolion yr ystyrir gan Weinidogion Cymru eu bod yn eu cynrychioli, ac unigolion yr ystyrir gan Weinidogion Cymru fel cynrychioli gweithwyr yr ATAau, a gallant ymgynghori ag unrhyw unigolion eraill y maent yn eu hystyried yn briodol cyn gwneud diwygiadau i'r Fframwaith, sy'n ymddangos iddynt yn arwyddocaol.

5. Trafododd Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol Llywodraeth Cymru ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub (sy'n cynnwys y tri ATA, pob un o'r wyth undeb cydnabyddedig a CLlLC) amlinelliad o'r Fframwaith ym mis Gorffennaf 2025, a chynhaliwyd trafodaethau dwyochrog pellach am yr amlinelliad rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a rhai aelodau o'r Fforwm ar gais yr olaf. Yn dilyn hynny, dechreuodd ymgynghoriad wyth wythnos ar 22 Hydref 2025, ac roedd yn agored ar gyfer ymatebion tan 17 Rhagfyr 2025. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys 11 cwestiwn, gydag opsiynau i ymateb i'r cwestiynau hynny trwy lenwi ffurflen ar-lein neu drwy e-bost. Roedd y ddogfen ymgynghori ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

6. Cafodd Llywodraeth Cymru 20 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Daeth yr ymatebion hynny gan y canlynol:

- Pump gan GTAau a chyrff eraill yn y sector tân
- Dau gan undebau llafur sy'n cynrychioli diffoddwyr tân
- Dau gan gyrff llywodraeth leol
- Un gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
- Tri gan gyrff gwirfoddol a sector preifat
- Saith gan unigolion, yr ymddengys bod nifer ohonynt yn gwasanaethu fel diffoddwyr tân neu’n gyn-ddiffoddwyr tân.

Cafwyd ymateb pellach a oedd yn gwbl wag ac nad oedd modd ei briodoli. Nid yw wedi'i ystyried ymhellach.

7. Mae rhestr lawn o'r ymatebwyr ar gael yn Atodiad A.

8. Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r ymatebion i'r ymgynghoriad a hoffai ddiolch i'r rhai a ymatebodd.

9. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Hasesiad Effaith Integredig ochr yn ochr â'r ddogfen ymgynghori. Mae'r sefyllfa bolisi gyffredinol a nodir yn y ddogfen ymgynghori yn aros yr un fath ac mae wedi bod yn sail i destun terfynol y Fframwaith. Felly, nid oes unrhyw newidiadau wedi'u gwneud i'r Asesiad Effaith Integredig fel y'i cyhoeddwyd yn wreiddiol. Mae'r ddogfen i'w gweld yma Fframwaith Cenedlaethol Drafft ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub: asesiad effaith integredig [HTML] | LLYW. CYMRU

## Crynodeb o'r Ymatebion i'r Ymgynghoriad

10. Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion a gafwyd i bob un o'r cwestiynau penodol ac ymateb Llywodraeth Cymru iddynt.

11. Ar y cyfan, mae'r crynodeb hwn yn seiliedig ar y cwestiynau a ofynnodd y ddogfen ymgynghori. Fodd bynnag, nid oedd dau ymateb bob amser yn syrthio'n daclus i'r strwythur hwnnw. Canolbwyntiodd un, gan unigolyn, ar feirniadaeth o'r Asesiad Effaith Integredig yn hytrach na'r Fframwaith; ac roedd yr ail, gan GTA, yn

argymell llawer mwy o ragnodi yn y Fframwaith, er enghraifft o ran prosesau gweithredu neu reoli penodol. Mae ein hymateb eang i'r safbwyntiau hynny fel a ganlyn.

12. Nid yw'r Asesiad Effaith Integredig yn rhan o'r Fframwaith, ac mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod yr Asesiad a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Fframwaith diwygiedig drafft yn deg ac yn gynhwysfawr. Yn benodol, mae'n asesiad (ac mae'n rhaid iddo fod yn asesiad) o effaith y Fframwaith sy'n dod i rym, nid asesiad o effaith gwasanaethau tân ac achub yn fwy cyffredinol, fel y creda'r ymatebydd hwn yn ôl pob golwg. Felly, nid ydym yn cytuno â'r feirniadaeth a wnaeth yr ymatebydd hwn.

13. Fel y nodwyd uchod, prif bwrpas y Fframwaith yw gosod amcanion ar gyfer ATAau. Mae sut mae'r amcanion hynny'n cael eu dilyn yn fater i bob ATA, gan ystyried blaenoriaethau a risgiau lleol, lefelau adnoddau presennol a thebygol yn y dyfodol, a pholisïau a phrosesau rheoli a gweithredu sefydledig a'r cwmpas i'w diwygio. Ni fyddai'n bosibl nac yn briodol i'r Fframwaith geisio cyfyngu ar y penderfyniadau hynny, na'u cyfarwyddo.

14. Dadleuodd sawl ymatebydd hefyd y dylai'r Fframwaith fanylu ar ddyletswyddau statudol eraill y mae ATAau yn ddarostyngedig iddynt, megis y rhai sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch yn y gwaith, cydraddoldeb neu'r Gymraeg. Unwaith eto, fodd bynnag, byddai hynny'n fwy na chwmpas a phwrpas y Fframwaith, a byddai'n golygu mewnosod cryn dipyn o destun ychwanegol am fawr iawn o fudd. Mae'r dyletswyddau hyn yn rhwymo ATAau mewn cyfraith beth bynnag; mewn cyferbyniad, dim ond canllawiau y mae'n rhaid i ATAau eu "hystyried" wrth gyflawni eu swyddogaethau yw'r Fframwaith. Byddai datganiadau yn y Fframwaith i'r perwyl y dylai ATAau "ystyried" cydymffurfio â'r gyfraith yn ychwanegu ychydig iawn. Fodd bynnag, pan fo dyletswyddau o'r fath yn ymwneud yn uniongyrchol ag amcanion y mae'r Fframwaith yn eu nodi, byddwn yn diwygio'r testun i gynnwys cyfeiriadau atynt.

**C1. Ydych chi'n cytuno bod yr heriau strategol sy'n wynebu'r Gwasanaeth wedi'u nodi mewn ffordd deg a chynhwysfawr?**

15. Atebodd pob un o'r 20 ymatebydd y cwestiwn hwn, ac nid oedd yr un ohonynt yn credu nad oedd y cyfrif o'r heriau strategol yn y Fframwaith drafft yn deg ac yn gynhwysfawr. Roedd 12 o'r 20 o'r farn y dylid crybwyll materion eraill hefyd, a/neu y dylid ymdrin â materion presennol yn fanylach; mae hynny'n cael ei archwilio ymhellach o dan gwestiwn 2 isod.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

16. Rydym yn falch bod y bennod hon o'r Fframwaith drafft wedi denu lefel uchel o gefnogaeth, o leiaf mewn egwyddor. Bydd yn sail i'r testun terfynol, yn amodol ar y newidiadau a ddisgrifiwn o dan y pennawd nesaf.

**C2. A oes materion eraill y dylem eu cynnwys yn y bennod hon?**

17. O'r 20 ymatebydd, galwodd 15 am drafod materion eraill, roedd dau yn teimlo nad oedd materion o'r fath, ac nid oedd tri wedi ateb y cwestiwn hwn. Galwodd 12

ymatebydd hefyd am drafod materion eraill yn eu hateb i gwestiwn 1.

18. Dadleuodd deg ymatebydd y dylai'r bennod hon gyfeirio at heriau mewnol sy'n wynebu GTAau, megis gwella diwylliannol ac arweinyddiaeth, cadw staff ac iechyd a diogelwch diffoddwyr tân.

19. Roedd awgrymiadau eraill yn cynnwys effeithiau hirdymor pandemig COVID-19; anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol, gordewdra, diogelwch ar y ffyrdd (gan gynnwys cerbydau di-yrrwr) a materion diogelwch cynnyrch a allai gynyddu'r risg o danau mewn anheddau. Dadleuodd un ymateb y dylai'r Fframwaith gynnwys cyfrif manwl o'r holl risgiau strategol o'r fath a'u tueddiad i newid.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

20. Rydym yn cytuno bod rhai heriau mewnol sylweddol iawn yn wynebu GTAau. Mae'r angen dybryd i fynd i'r afael â diwylliannau camweithredol a gwahaniaethol, er enghraifft, wedi cael ei ddatgelu mewn nifer o adroddiadau yn y cyfryngau ac ymchwiliadau dilynol. Fodd bynnag, mae'r bennod hon yn canolbwyntio ar newidiadau'r gorffennol, presennol a thebygol yn y dyfodol yn y cyd-destun strategol allanol y mae'n rhaid i'r Gwasanaeth weithredu ynddo, ac y mae'n rhaid iddo addasu iddo. Rhan hanfodol o'r gallu hwnnw i addasu fydd gwneud y mathau o welliannau mewnol y galwodd yr ymatebwyr hyn amdanynt. Mae'r rhain, fodd bynnag, yn cael eu trafod yn nhrydedd bennod y Fframwaith, ac nid oes angen eu hailadrodd yn fanwl yma. Byddwn yn cynnwys llinell yn y bennod hon sy'n nodi pwysigrwydd y materion hyn, ac yn cyfeirio'r darllenydd at y drydedd bennod.

21. Mae rhai o'r risgiau eraill yr oedd ymatebwyr yn dymuno eu gweld yn cael eu cynnwys, megis ôl-effeithiau pandemig COVID-19 a diogelwch cynnyrch, eisoes wedi'u cynnwys yn y Fframwaith drafft. Mae eraill, fel gordewdra, yn debygol o gael effaith ymylol yn unig ar weithrediadau'r GTA.

22. Fel y nododd y drafft, mae y tu hwnt i gwmpas y Fframwaith esbonio holl newidiadau presennol a thebygol y dyfodol i risg strategol yn fanwl, y gallai fod yn rhaid i'r GTA eu hwynebu. Byddai adroddiad manwl o, dyweder, newidiadau i'r amgylchedd adeiledig, a'u heffeithiau tebygol ar risg tân a diffodd tân, yn ddarn sylweddol iawn o waith. Yn ogystal, mae nifer o'r risgiau hyn yn ddeinamig ac yn esblygu'n gyflym, sy'n golygu y byddai unrhyw gyfrif o'r fath yn dyddio'n gyflym. Prif bwrpas y bennod hon oedd gwneud y pwynt hwnnw, a'i ddangos trwy amlinellu rhai o'r newidiadau pwysicaf ac amlwg mewn risg, ac annog GTAau i addasu i gyd-destun risg strategol newidiol, ac sydd mewn sawl ffordd yn fwy peryglus, yn gyffredinol. Byddwn yn diwygio'r testun i egluro hynny.

23. Fodd bynnag, rydym yn cytuno y gallai'r bennod hon fod yn ddefnyddiol wrth sôn am bwysau economaidd tymor canolig cyfredol a thebygol, gan gynnwys ar gyllid cyhoeddus yn benodol. Mae pwysau o'r fath yn debygol o gyfyngu ar allu GTAau i gymryd rhai o'r camau a allai fel arall fod yn ddymunol wrth fynd ar drywydd yr amcanion y mae'r Fframwaith yn eu nodi. Byddwn yn diwygio'r testun yn unol â hynny.

**C3. Ydych chi'n meddwl bod y naratif a'r amcanion yn y bennod Pennu Adnoddau yn ôl Risg yn briodol ac yn bwysig?**

24. Atebodd pob un o'r 20 ymatebydd y cwestiwn hwn, ac roedd 13 ohonynt yn cytuno â chynnwys y bennod. Cytunodd 7 arall hefyd, ond teimlent y dylid cynnwys materion eraill.

25. Dadleuodd 9 ymatebydd y dylai'r bennod hon hefyd gyfeirio at bennu adnoddau, yn enwedig yr angen i sicrhau bod lefelau staffio a chriw digonol, a hefyd pwysigrwydd cynnal gwytnwch a darpariaethau gwasanaeth teg ar draws ardaloedd gwledig a threfol.

26. Roedd sylwadau eraill yn cynnwys cyfeiriad at ymateb meddygol brys a hyfforddiant sy'n ofynnol i ymgymryd â'r rôl hon. Yn ogystal, dadleuodd 2 ymatebydd y dylai'r bennod gynnwys cyfeiriad at gydraddoldeb, yn enwedig gwell dealltwriaeth o'r boblogaeth a wasanaethir a pholisïau cydraddoldeb y gweithlu.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

27. Rydym yn falch bod y bennod hon o'r Fframwaith drafft wedi denu lefel uchel o gefnogaeth, o leiaf mewn egwyddor. Bydd yn sail i'r testun terfynol, yn amodol ar y newidiadau a ddisgrifiwn o dan y pennawd nesaf. Mae ein hymateb i gynigion i gynnwys materion eraill o dan y cwestiwn isod.

**C4. A oes unrhyw faterion neu amcanion eraill y dylem eu cynnwys yn y bennod hon?**

28. O'r 20 ymatebydd, galwodd 17 am fynd i'r afael â materion pellach yn y bennod, ni wnaeth 3 ymatebydd ymateb i'r cwestiwn. Fe wnaeth rhai alw am gynnwys materion eraill yn eu hymatebion i gwestiwn 3 hefyd.

29. Dadleuodd 13 ymatebydd y dylai'r bennod hon gyfeirio at faterion mewnol, yn benodol, rôl a chadw'r diffoddwyr tân ar ddyletswydd yn ôl galw, proffilio risgiau cymunedol, adrodd ar ddangosyddion perfformiad, materion diwylliannol a gallu digidol a data.

30. Roedd 10 ymatebydd hefyd yn teimlo y dylid cynnwys materion gweithredol fel ehangu rôl diffoddwyr tân a'r angen am fwy o gydweithredu â sectorau eraill yn y Fframwaith. Gwnaed sylwadau pellach mewn perthynas â phennu adnoddau a phwysigrwydd ymgynghoriad ac asesiad llawn wrth ystyried gostyngiad mewn safonau ymateb. Yn ogystal, roedd 2 ymatebydd yn teimlo y dylid cymryd mwy o gamau i hyrwyddo pwysigrwydd diogelwch dŵr a ffyrdd, ac y dylid cael ymyriadau diogelwch cartref wedi'u targedu ar gyfer aelwydydd risg uchel, gan gynnwys pobl hŷn. Dadleuodd un ymatebydd y dylid trin ymosodiadau terfysgol difaol yn yr un modd ag unrhyw ddigwyddiad anafiadau torfol arall, a galwodd ar Lywodraeth Cymru i ailedrych ar y penderfyniad hwn. Cefnogodd un ymatebydd ymchwil barhaus i dactegau diffodd tân.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

31. Mae nifer o'r materion y galwodd ymatebwyr amdanynt eisoes wedi'u cynnwys yn y Fframwaith drafft. Mae'r rhain yn cynnwys yr angen i sicrhau capasiti digonol i ymateb i'r galw tebygol, cynaliadwyedd y system a gwasanaethau dyletswydd yn ôl galw mewn ardaloedd gwledig, a thargedu ymyriadau diogelwch yn y cartref ar gyfer y rhai sydd yn y perygl mwyaf. Ar ben hynny, ymdrinnir â materion diwylliannol ym mhennod 3 ac adrodd ar berfformiad ym mhennod 4. Nid ydym yn credu bod angen unrhyw welliannau pellach i ddelio â'r materion hyn.

32. Mae'r drafft hefyd eisoes yn mynd i'r afael â'r posibilrwydd o ehangu rôl y Gwasanaeth, ac yn nodi mai safbwynt presennol Llywodraeth Cymru yw blaenoriaethu gwelliannau i ddiwylliant a llywodraethu cyn unrhyw newidiadau o'r fath. Er bod ymatebwyr wrth gwrs yn rhydd i anghytuno â'r safiad hwnnw, a allai newid yn dilyn etholiadau Senedd 2026, mae'n parhau i fod yn wir am y tro. Felly ni fyddai'n briodol diwygio'r Fframwaith i hyrwyddo rôl mor eang.

33. Trafodwyd y dull o ymateb i ymosodiadau terfysgol difaol, y mae'r Fframwaith yn nodi y cafodd ei drafod yn fanwl a chytuno arno, gan y Grŵp Llywodraethu Gwydnwch Cenedlaethol yn 2023. Mae'r Grŵp hwnnw'n cael ei gadeirio gan y Prif Gynghorydd Tân ac Achub a'r Arolygydd ac mae'n cynnwys uwch gynrychiolaeth o bob un o’r tri GTA. Mae ei benderfyniad i brif ffrydio ymateb ymosodiadau terfysgol difaol bellach yn cael ei weithredu, ac nid ydym yn cytuno â'r ymatebydd unigol a alwodd i bob diben am ei wrthdroi.

34. Fodd bynnag, rydym yn cytuno â'r ymatebwyr y gallai ac y dylai’r bennod hon ddweud mwy am ddadansoddi data a defnyddio TGCh; am bennu adnoddau cynaliadwy ar gyfer capasiti; ac am ddeall materion cydraddoldeb a nodweddion gwarchodedig fel elfen o gynllunio risg. Byddwn yn diwygio testun y Fframwaith yn unol â hynny.

**C5. Ydych chi'n meddwl bod y naratif a'r amcanion yn y bennod Pobl, Arweinyddiaeth a Diwylliant yn briodol ac yn bwysig?**

35. Atebodd 18 ymatebydd y cwestiwn hwn, ac roedd 12 ohonynt yn cytuno â chynnwys y bennod. Roedd 7 arall yn teimlo y dylid cynnwys materion eraill.

36. Dadleuodd 3 ymatebydd y dylai'r bennod hon gyfeirio at iechyd a diogelwch diffoddwyr tân, yn enwedig, y risgiau sy'n gysylltiedig â charsinogenau ac iechyd meddwl. Awgrymodd 3 o ymatebwyr y dylai'r bennod hefyd gyfeirio at gydraddoldeb, megis sicrhau bod targedau clir ar waith ar gyfer gwella diwylliant ac amrywiaeth yn y gweithle, ac y dylid ystyried nodweddion gwarchodedig heblaw oedran. Yn ogystal, awgrymwyd y dylai datblygu arweinyddiaeth hefyd gynnwys hygrededd gweithredol yn ogystal â chymwysterau rheoli.

37. Gwnaeth un ymatebydd sylw hefyd eu bod yn teimlo bod y bennod yn cyffredinoli’n ormodol, trwy gyfeirio at ddiwylliant arweinyddiaeth yn hytrach na diwylliant yn gyffredinol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

38. Eto, rydym yn falch bod y bennod hon o'r Fframwaith drafft wedi denu lefel uchel o gefnogaeth, o leiaf mewn egwyddor. Bydd yn sail i'r testun terfynol, yn amodol ar y newidiadau a ddisgrifiwn o dan y pennawd nesaf. Mae ein hymateb i gynigion i gynnwys materion eraill o dan y cwestiwn isod.

**C6. A oes unrhyw faterion neu amcanion eraill y dylem eu cynnwys yn y bennod hon?**

39. O'r 20 ymatebydd, galwodd 14 am drafod materion eraill, roedd dau yn teimlo nad oedd materion o'r fath, ac nid oedd pedwar wedi ateb y cwestiwn hwn. Fe wnaeth rhai alw am gynnwys materion eraill yn eu hymatebion i gwestiwn 5 hefyd.

40. Dadleuodd 6 ymatebydd y dylid cynnwys materion staffio yn y Fframwaith, yn enwedig yr angen am well dysgu sefydliadol a defnyddio staff cymorth i leihau'r baich gweinyddol ar lefel reolaethol. Gellid gwella materion staffio trwy sicrhau bod eglurder ar lwybrau dilyniant gyrfa a thegwch mewn prosesau dyrchafiad. Roedd dau ymatebydd yn teimlo y dylai cyfeiriad at arallgyfeirio'r gweithlu fod yn fwy manwl a byddai targedau ac atebolrwydd cliriach yn fuddiol. Awgrymodd ymatebwyr hefyd y dylid cynnwys cyfeiriad at ddyletswyddau cydraddoldeb yn y bennod, a dylid rhoi pwyslais pellach ar yr angen am bartneriaeth gymdeithasol â chyrff cynrychioladol.

41. Awgrymodd 2 ymatebydd y dylid cynnwys cyfeiriad at lywodraethu yn y bennod, gyda phwyslais ar bwysigrwydd craffu a chanlyniadau methiant. Yn ogystal, teimlwyd y dylai'r Fframwaith adlewyrchu'r materion a nodwyd gan staff a'u rôl wrth lunio datblygiad polisi.

42. Dadleuodd 6 ymatebydd y dylai'r bennod hefyd gynnwys materion diwylliannol, gan gynnwys yr angen am ddealltwriaeth gyffredin o ddiwylliant cadarnhaol a model arweinyddiaeth gyffredin. Yn ogystal, awgrymodd un ymatebydd hefyd y gellid ehangu ystyriaethau iechyd, diogelwch a lles i gynnwys safbwyntiau ledled y DU a safbwyntiau rhyngwladol, gan sicrhau bod arferion gorau yn cael eu rhannu a'u mabwysiadu.

43. Yn ogystal, awgrymodd 3 ymatebydd y dylai'r Fframwaith gyfeirio at iechyd a diogelwch, yn enwedig iechyd meddwl diffoddwyr tân, pwysigrwydd ffitrwydd corfforol a'r gofyniad ar y Gwasanaethau Tân ac Achub i ddarparu cyfleusterau ac amser â thâl i gynnal safonau ffitrwydd corfforol diffoddwyr tân amser llawn, a diffoddwyr tân ar ddyletswydd yn ôl y galw. Yn ogystal, roedd 2 ymatebydd yn teimlo y dylai'r Fframwaith gyfeirio at risgiau iechyd fel halogion a blinder, a'r angen i ail-werthuso tactegau gweithredol traddodiadol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

44. Fel gyda phennod 2, mae rhai o’r materion y galwodd ymatebwyr amdanynt eisoes wedi'u cynnwys yn y Fframwaith drafft. Mae'r rhain yn cynnwys y risgiau sy'n deillio o flinder ac amlygiad i garsinogenau, yr angen i ail-werthuso tactegau a gweithdrefnau er mwyn lleihau'r risg, a phwysigrwydd partneriaeth gymdeithasol.

Mae'r bennod yn cyfeirio'n glir at "arweinyddiaeth *a* diwylliant" nid "diwylliant arweinyddiaeth", ac mae'n ymdrin â diwylliant gweithle ar bob lefel.  Ymdrinnir â materion llywodraethu ym mhennod 4, felly nid oes angen eu crybwyll yma.

45.   Nododd y cyflwyniad i'r ymateb hwn na fyddai'n briodol nac yn ddefnyddiol i'r Fframwaith fanylu ar ddyletswyddau cyfreithiol y mae ATAau eisoes yn ddarostyngedig iddynt, megis y rhai sy'n ymwneud â chydraddoldeb neu iechyd a diogelwch yn y gweithle.  Er bod y dyletswyddau hynny yn sail i lawer o gynnwys y bennod hon, pwrpas y Fframwaith yw nodi amcanion y dylai ATAau eu dilyn yn eu cyd-destunau presennol penodol, nid crynhoi'r gyfraith sy'n berthnasol iddynt a phob cyflogwr arall mewn unrhyw achos.  Nid ydym hefyd yn credu y byddai'n briodol i'r Fframwaith nodi trefniadau a pholisïau rheoli mewnol penodol; mae'r rhain yn briodol i bob ATA benderfynu arnynt o fewn ffiniau'r Fframwaith a'u rhwymedigaethau cyfreithiol.

46.   Fodd bynnag, rydym yn cytuno â'r ymatebwyr y byddai'n briodol i'r Fframwaith ymdrin â materion iechyd meddwl a chefnogaeth i ddiffoddwyr tân a allai fod mewn perygl ohonynt; pwysigrwydd dysgu rhyngwladol wrth wella iechyd a diogelwch diffoddwyr tân; a'r angen i ddangos cynnydd mewn gwelliant diwylliannol yn gyffredinol ac arallgyfeirio'r gweithlu yn benodol.  Byddwn yn diwygio testun y Fframwaith yn unol â hynny.

**C7. Ydych chi'n meddwl bod y naratif a'r amcanion yn y bennod materion corfforaethol yn briodol ac yn bwysig?**

47.   Atebodd pob un o'r 20 ymatebydd y cwestiwn hwn, ac roedd 12 ohonynt yn cytuno â chynnwys y bennod, gyda 6 arall yn teimlo y dylid crybwyll materion eraill hefyd, a/neu y dylid ymdrin â materion presennol yn fanylach. Ni atebodd 2 ymatebydd y cwestiwn.

48.   Dadleuodd 5 ymatebydd y dylai'r bennod ddarparu mwy o gyfeiriad at bwysigrwydd cydweithredu ar draws sefydliadau. Dywedodd ymatebwyr hefyd fod lefel y fiwrocratiaeth ar hyn o bryd yn rhwystro datblygiad a bod angen mwy o dryloywder ac atebolrwydd yn y dyfodol.

49.   Roedd awgrymiadau eraill yn cynnwys cyfeiriad at staffio a lefelau adnoddau yn benodol, pwysigrwydd cydweithio a phennu adnoddau nad ydynt yn cael eu gyrru gan gyfyngiadau costau.  Roedd un ymatebydd yn teimlo y gellid cryfhau cyfeiriadau at uchelgeisiau amrywiaeth a chynhwysiant o fewn y bennod, gan gynnwys yr angen am dargedau clir a fyddai'n helpu i ddangos sut mae amrywiaeth yn gwella darparu gwasanaethau ac ymddiriedaeth gymunedol.  Dywedodd un arall y dylid cyfeirio hefyd at bwysigrwydd rôl a chadw staff cymorth.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

50.   Eto, rydym yn falch bod y bennod hon o'r Fframwaith drafft wedi denu lefel uchel o gefnogaeth, o leiaf mewn egwyddor.  Bydd yn sail i'r testun terfynol, yn amodol ar y newidiadau a ddisgrifiwn o dan y pennawd nesaf.  Mae ein hymateb i gynigion i gynnwys materion eraill o dan y cwestiwn isod.

**C8. A oes unrhyw faterion neu amcanion eraill y dylem eu cynnwys yn y bennod hon?**

51. O'r 20 ymatebydd, galwodd 12 am drafod materion eraill, roedd dau yn teimlo nad oedd materion o'r fath, ac nid oedd 6 wedi ateb y cwestiwn hwn.

52. Dadleuodd 6 ymatebydd y dylid rhoi mwy o ddadansoddiad i'r gost o gyflawni sero net ac a yw hyn yn ymarferol o ystyried pwysau cost cyfredol, soniodd un ymatebydd hefyd y dylai gwefru cerbydau trydan fod ar gael i staff. Roedd sylwadau eraill mewn perthynas â chynaliadwyedd yn cynnwys pwysigrwydd adrodd ar newid yn yr hinsawdd a hefyd yr angen i ystyried nodweddion unigryw Cymru – er enghraifft yr iaith a'r ddaearyddiaeth.

53. Galwodd 10 ymatebydd am drafod materion eraill o dan y pennawd llywodraethu, er enghraifft roedd 3 ymatebydd yn teimlo bod angen i'r bennod ddarparu mwy o eglurder ar ddiwygio llywodraethu, soniwyd hefyd y dylid cynnwys barn staff a chyrff cynrychioliadol mewn trafodaethau polisi. Pwysleisiodd 3 ymatebydd yr angen am ddangosyddion perfformiad, mecanweithiau adrodd ac arolygu, sy'n cysylltu â sylwadau a godwyd ynghylch pwysigrwydd ennill ymddiriedaeth y cyhoedd. Soniodd dau ymatebydd y dylai'r bennod hefyd bwysleisio pwysigrwydd dysgu, hyfforddiant a datblygiad gweithredol er mwyn sicrhau bod diffoddwyr tân yn gallu cyflawni eu rôl i'r safon uchaf. Yn ogystal, dadleuodd dau ymatebydd y gellid cryfhau'r bennod trwy roi mwy o bwysau i wydnwch cymunedol a chydweithrediad aml-asiantaeth.

54. Awgrymodd yr ymatebwyr hefyd y dylai'r Fframwaith gynnwys trawsnewid digidol a'r angen am seiberddiogelwch a gofyniad i GTAau ddangos cynhyrchiant eu gweithlu a'u gwerth ychwanegol, yn enwedig o ran atal ac amddiffyn a gwerth cymdeithasol ehangach.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

55. Ers i'r ymgynghoriad ar y Fframwaith drafft ddod i ben, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi newidiadau i drefniadau llywodraethu ATAau, a oedd yn destun ymgynghoriad ar wahân. Nid oedd yn bosibl ymdrin â hyn yn y Fframwaith drafft, ond byddwn yn diwygio testun terfynol y Fframwaith i wneud hynny.

56. Rydym hefyd yn cytuno y dylai'r Fframwaith gynnwys mwy o fanylion ar reoli perfformiad ac adrodd, a byddwn yn diwygio'r testun terfynol yn unol â hynny. Bydd datblygiadau yn y maes hwn yn y dyfodol yn fater i Lywodraeth Cymru yn dilyn etholiadau Senedd Cymru ym mis Mai 2026.

57. Fodd bynnag, mae'r Fframwaith eisoes yn cwmpasu cydweithredu, yr heriau o gyflawni sero net a phartneriaeth gymdeithasol (yn y bennod hon) ac amrywiaeth y gweithlu a hyfforddiant diffoddwyr tân (ym mhennod 3). Ac mae materion fel biwrocratiaeth fewnol a gwefru cerbydau sy'n eiddo i staff ar y safle yn benderfyniad ar gyfer rheolwyr lleol. Nid ydym yn credu bod angen unrhyw ddarpariaeth bellach ar y materion hyn.

**C9. Hoffem glywed eich barn am yr effeithiau y byddai’r cynigion polisi yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu’r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru’r effeithiau negyddol?**

58. O'r 20 ymatebydd, rhoddodd 7 sylw sylweddol i'r cwestiwn, nododd 7 nad oedd ganddynt farn ac nid oedd 6 ymatebydd wedi ateb y cwestiwn o gwbl.

59. Dywedodd 1 ymatebydd nad oeddent yn teimlo y byddai effeithiau ar y Gymraeg gan mai Saesneg oedd eu hiaith o ddewis. Cododd 3 ymatebydd bryderon y gallai integreiddio'r Gymraeg achosi problemau posibl, yn benodol, y gallai fod canlyniadau anfwriadol os nad yw materion iaith yn cael eu prif ffrydio yn y fframwaith gweithredu. Dylai fod offer dwyieithog ar waith ar gyfer cynllunio ac adrodd ar amcanion a dylid cymryd gofal nad yw hyrwyddo'r Gymraeg yn dieithrio siaradwyr Saesneg yn anfwriadol.

60. Dywedodd 2 ymatebydd y dylid hyrwyddo safonau'r Gymraeg yn y gweithle gyda'r cyfle i staff gael gwersi. Cododd un ymatebydd bryderon y dylai iaith ar dir drilio a digwyddiadau fod yn Saesneg yn unig er mwyn sicrhau diogelwch diffoddwyr tân a'r cyhoedd.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

61. Ymddengys bod nifer o'r ymatebion a gawsom yn cwestiynu defnydd neu werth y Gymraeg, er enghraifft mewn hyfforddiant neu mewn digwyddiadau. Nid ydym yn cytuno â hynny: mae gan y Gymraeg a'r Saesneg statws cyfartal, fel a geir gyda dewisiadau unigolion ar gyfer un iaith neu'r llall. Rydym yn credu y gellir a dylid ei adael i ddiffoddwyr tân ddefnyddio pa un bynnag sydd fwyaf priodol yn yr amgylchiadau. Does dim rheswm o gwbl pam, er enghraifft, na ddylid cyflwyno cwrs hyfforddi i ddiffoddwyr tân yn Gymraeg os mai dyna yw dewis y rhai sy'n cymryd rhan. Nid ydym ychwaith yn cytuno bod hyrwyddo'r Gymraeg yn dieithrio siaradwyr Saesneg.

62. Mae darparu gwersi Cymraeg i staff y GTA yn ganmoladwy, ond mae'n fater i reolwyr lleol nad oes angen ei gynnwys yn y Fframwaith.

63. Ar y cyfan, nid ydym yn credu bod angen unrhyw welliannau i'r Fframwaith yng ngoleuni'r ymatebion i'r cwestiwn hwn.

**C10. Esboniwch hefyd sut rydych chi'n credu y gellid geirio neu newid y cynigion polisi er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg, heb unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

64. Atebodd 13 ymatebydd y cwestiwn hwn, ac roedd 8 ohonynt wedi rhoi sylwadau sylweddol. Ni atebodd 7 ymatebydd y cwestiwn.

65. Roedd 5 ymatebydd yn teimlo y gallai'r Fframwaith gryfhau'r defnydd o'r Gymraeg ac awgrymodd y gallai fod yn ddefnyddiol cynnwys cyfeiriadau mwy uniongyrchol at y Gymraeg ar draws adrannau perthnasol. Roedd sylwadau eraill yn cynnwys ystyried materion iaith wrth ymgymryd â phroffilio risgiau cymunedol ac ehangu arweinyddiaeth ddwyieithog y Gwasanaeth.

66. Awgrymodd ymatebwyr eraill y dylid cyfieithu a chyhoeddi pob ymateb i ymgynghoriadau yn ddwyieithog ac y dylai Llywodraeth Cymru ystyried ariannu offer digidol Cymraeg.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

67. Rydym yn cytuno y gallai rhai adrannau cynharach o'r Fframwaith fod wedi dweud mwy am y Gymraeg. Er enghraifft, mae cyngor diogelwch tân yn fwy effeithiol os yw'n cael ei gyflwyno yn yr iaith y mae'n well gan y derbynnydd ei defnyddio. Mae'n dilyn y dylai ATAau gymryd camau i ddeall proffiliau ieithyddol eu hardaloedd, a byddwn yn gwneud diwygiadau priodol i bennod 2 o'r Fframwaith.

68. Fodd bynnag, nid yw'n arfer arferol Llywodraeth Cymru i gyhoeddi (neu gyfieithu a chyhoeddi) ymatebion gair-am-air i ymgynghoriadau, ac ni fyddai gwneud hynny yma yn ychwanegu unrhyw werth. Ac mae darparu meddalwedd ddwyieithog i staff y GTA eto yn fater i reolwyr lleol; nid oes angen ei gynnwys yn y Fframwaith.

**C11. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol am y Fframwaith newydd arfaethedig. Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu sylwadau perthnasol nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw'n benodol?**

69. Rhoddodd 11 ymatebydd sylw sylweddol i'r cwestiwn hwn, ni roddodd 3 sylw sylweddol. Ni atebodd 6 ymatebydd y cwestiwn o gwbl.

70. Dadleuodd 3 ymatebydd y dylai'r Fframwaith ddarparu mwy o fanylion ynghylch adnoddau ac arweinyddiaeth, yn enwedig yr angen i recriwtio a chadw diffoddwyr tân ar ddyletswydd yn ôl galw. Awgrymwyd hefyd y dylai'r ddogfen nodi'n glir y lefelau presenoldeb criw a phwmp angenrheidiol mewn digwyddiadau. Dywedodd un ymatebydd y dylid mynd i'r afael ag effaith darnio diwylliannol.

71. Awgrymodd 5 ymatebydd y gellid cryfhau'r Fframwaith drwy ddarparu mwy o eglurder ar gynigion diwygio llywodraethu. Gwnaed sylwadau pellach ynglŷn â'r angen am dirwedd bartneriaeth ehangach lle mae Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru yn gweithredu ac yn cymryd rhan. Yn ogystal, awgrymodd 3 ymatebydd y dylid cynnwys rhagor o wybodaeth ynghylch sut mae cynnydd o ran y Fframwaith yn cael ei fesur a'i adrodd. Galwodd un ymatebydd am roi mwy o ystyriaeth i adborth staff a’r cyhoedd wrth ddrafftio'r Fframwaith.

72. Awgrymodd 5 ymatebydd y dylid ehangu materion gweithredol i ystyried iechyd a diogelwch diffoddwyr tân, yn enwedig mewn perthynas â charsinogenau, cyllid sydd ar gael ar gyfer mesurau gwrth-ganser a hefyd lles a blinder diffoddwyr tân rheng flaen. Dywedodd ymatebwyr hefyd y dylai'r Fframwaith gyfeirio at y gostyngiad mewn galwadau allan oherwydd larymau tân awtomatig, darpariaeth

ariannu ar gyfer hyfforddiant adeiladau uchel iawn, ehangu rôl diffoddwyr tân a hefyd yr angen am fwy o gyfeiriadau at y Canllawiau Gweithredol Cenedlaethol. Galwodd un ymatebydd am Lywodraeth Cymru i gynorthwyo gyda chliriadau diogelwch a fyddai'n caniatáu i'r Gwasanaethau Tân ac Achub ymgymryd â gwaith paratoi ac ymateb effeithiol i ddigwyddiadau terfysgol a digwyddiadau tebyg. Yn ogystal, dywedodd un ymatebydd y dylid ystyried yn ofalus y cydbwysedd o gyflawni sero net yn erbyn risg weithredol. Nodwyd hefyd y dylai'r Fframwaith fynd i'r afael â'r angen cynyddol am ddefnyddio TG o fewn y Gwasanaeth.

73. Cododd un ymatebydd bryderon bod y Fframwaith drafft yn cysylltu atal tân a diffodd tân effeithiol fel elfennau o liniaru newid yn yr hinsawdd, yn enwedig os yw'n arwain at ddisgwyliadau y gallai gwasanaethau tân ac achub fod yn atebol am yr allyriadau o ddigwyddiadau nad oeddent wedi’u hachosi neu na allent eu hatal. Dadleuwyd y dylid darparu eglurder a sicrwydd pellach y bydd rôl y Gwasanaethau Tân ac Achub yn cael ei hystyried wrth weithredu'r Fframwaith a'r ddeddfwriaeth gysylltiedig.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

74. Mae llawer o'r materion a godwyd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn eisoes wedi'u trafod mewn cwestiynau cynharach, a/neu eisoes wedi'u cynnwys yn y Fframwaith. Mae'r rhain yn cynnwys diwygio llywodraethiant, cynaliadwyedd y system ar ddyletswydd yn ôl galw, larymau ffug, ehangu rôl diffoddwyr tân a'r risgiau sy'n gysylltiedig â chynhyrchion hylosgi carsinogenig. Rydym wedi nodi'n gynharach yn y ddogfen hon lle byddwn yn diwygio'r Fframwaith ar y materion hyn.

75. Cododd ymatebion eraill faterion sydd o fewn cylch gwaith rheolwyr lleol, gan gynnwys trefniadau criw mewn digwyddiadau a hyfforddiant diffodd tân mewn adeiladau uchel iawn; neu faterion o natur weinyddol fel cliriadau diogelwch ar gyfer staff y GTA. Nid ydym yn credu y dylai'r Fframwaith ymdrin â materion o'r fath.

76. Fodd bynnag, rydym yn cytuno y dylid egluro'r cyfeiriad at liniaru newid yn yr hinsawdd ym mhennod 4 y Fframwaith. Gall tanau fod yn ffynhonnell sylweddol iawn o allyriadau carbon, felly mae eu diffodd neu eu hatal yn cyfrannu'n effeithiol at liniaru newid yn yr hinsawdd. Ni all hynny olygu bod y GTA mewn rhyw ffordd yn atebol am yr allyriadau hynny, yn fwy nag y mae'n gyfrifol am ddigwyddiad tân. Y pwynt yw na ddylid anwybyddu ymdrechion yr GTAau i leihau allyriadau yn y modd hwn. Rydym hefyd yn cytuno y byddai'n briodol cyfeirio at y Canllawiau Gweithredol Cenedlaethol ym Mhennod 2 o'r Fframwaith. Byddwn yn diwygio'r testun yn unol â hynny.

## Y camau nesaf

77. Bydd testun y Fframwaith yn cael ei ddiwygio yng ngoleuni'r ymatebion i'r ymgynghoriad, fel y nodwyd uchod.

78. Mae adran 21(6) o Ddeddf 2004 yn darparu bod y Fframwaith, fel y'i paratowyd gyntaf ac unrhyw ddiwygiadau iddo sy'n ymddangos yn arwyddocaol i

Weinidogion Cymru, yn weithredol dim ond pan gaiff ei ddwyn i rym gan Orchymyn a wnaed gan Weinidogion Cymru.  Rydym yn bwriadu gwneud y Gorchymyn hwnnw, a'i osod gerbron Senedd Cymru, ddechrau mis Mawrth 2026.  Bydd y Fframwaith wedyn yn dod i rym ar 30 Mawrth 2026.

## Atodiad 1 – Rhestr o Ymatebwyr

- Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
- Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
- Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
- Comisiynwyr De Cymru
- Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân
- Undeb y Brigadau Tân
- Cymdeithas y Gwasanaethau Tân ac Achub
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
- Senseia
- Y Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau
- Tîm Achub Mynydd Gorllewin y Bannau
- Saith unigolyn, un ohonynt yn ddienw.  Gofynnodd sawl un o'r lleill am anhysbysrwydd, ac nid ydym yn gweld unrhyw werth arbennig mewn adnabod y gweddill.